Gwasanaeth Tân ac Achub **De Cymru** | **South Wales** Fire and Rescue Service

# CYNORTHWYYDD GWEINYDDOL (STAFFIO CANOLOG)

**Cyflog, GRADD 6: £25,545 - £26,421 y flwyddyn**

**37 awr yr wythnos**

**Rhif y Swydd: NU007**

**Swydd Barhaol**

Cododd y swydd wag barhaol uchod o fewn Adran Staffio Canolog y Gyfarwyddiaeth Weithrediadau ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân, Llantrisant.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am oruchwylio POB agwedd o Rotâu'r Rheolwyr Tactegol. Bydd y rôl yn cynnwys cyd-lynu pob gweithgaredd hyfforddi ar gyfer y Rheolwyr Tactegol a Rheolwyr Dyletswydd gyda'r Dydd. Bydd gofyn i ddeiliad y swydd ddarparu cwmpasiad ar gyfer Swyddogion Gweinyddol eraill yn eu habsenoldeb, gan sicrhau cefnogaeth effeithiol ar gyfer y swyddogaeth Staffio Canolog.

Rhaid bod gan ymgeiswyr brofiad profedig o weithio mewn rôl weinyddol, gan gynnwys profiad tystiolaethol o ddefnyddio cymwysiadau Microsoft Office. Rhaid iddynt allu cyfathrebu ar bob lefel a bod yn gallu gweithio yn unol â therfynau amser ar eu liwt eu hunain. Mae agwedd hyblyg yn ogystal â sgiliau trefniadol ardderchog a sylw at fanwl gywirdeb yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir penodiad.

Dylid cwblhau Ffurflenni Cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio a ellir ei gyrchu drwy law ein gwefan: www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/-swyddi_gwag/. Os bydd angen fersiwn papur, e-bostiwch: personél@decymru-tan.gov.uk. Nodwch fydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau drwy law'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd wrth ymgeisio; Sicrhewch eich bod yn gwirio pob ffolder e-bost yn rheolaidd.

Dylai pob ymgeisydd mewnol ymgeisio drwy law eu porthol CORE, wrth ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad a chymwysterau priodol yn ôl amlinelliad y Fanyleb Person. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **Dydd Gwener y 27ain o Fedi 2024 am 12 o'r gloch, hanner dydd.** Mae'r dyddiad Dethol ar gyfer y swydd wag hon i'w gadarnhau.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Saesneg a Chymraeg ill dau ac rydym yn croesawu cyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Rhestr Fer i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweld). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn y gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithydd a Chyfieithu/neu Gyfieithu ar y Pryd.

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwerth gwirioneddol cael gweithlu amrywiol a dymunwn annog yn rhagweithiol i ymgeiswyr o bob sector cymdeithas ymgeisio.**

Living Wage Employer

disability confident COMMITTED